# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 18 Chwefror 2013** |
| Amser: | **14: - 18:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
<insert link here>

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies** |
| Tystion: | **June Milligan, Llywodraeth Cymru**<br>**Alyson Francis, Llywodraeth Cymru**<br>**Wyn Price, Llywodraeth Cymru**<br>**Christina Scott, Cabinet Office**<br>**Simon Wilkinson, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**<br>**Gavin Macho, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**<br>**Anne Evans, North Wales Resilience Forum Secretariat**<br>**Superintendent Claire Parmenter, Joint Emergency Services Group**<br>**Rhodri Jones, St John Cymru Wales**<br>**James Shaughnessy, St John Cymru Wales** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammad Asghar.

1.3 Cafodd y Cadeirydd ymddiheuriadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd.

## 2. Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet

2.1 Croesawodd y Cadeirydd June Milligan, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru; Alyson Francis, Dirprwy Bennaeth Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru; Wyn Price, Pennaeth Argyfyngau, Llywodraeth Cymru; a Christina Scott, Cyfarwyddwr, Ysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil Posibl, Swyddfa'r Cabinet.

2.2 Holodd yr Aelodau'r tystion.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet i ddarparu:

- Nodyn yn amlinellu manylion ad-daliadau ariannol a wnaed i awdurdodau lleol i dalu costau yn sgil argyfyngau mawr, gan gynnwys ad-daliadau a wnaed i Gyngor Abertawe yn dilyn y tân teiars yn Fforestfach.
- Rhagor o wybodaeth ynghylch a oes rheolau penodedig yn y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl sy'n rhwystro ymatebwyr categori dau neu asiantaethau gwirfoddol rhag cadeirio gweithgorau.

## 3. Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Tystiolaeth ynghylch y safbwynt lleol

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Simon Wilkinson, Swyddog Polisi Gwasanaethau Rheoleiddio, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Gavin Macho, Rheolwr Cynllunio ar gyfer Argyfyngau, Cyngor Caerdydd; Anne Evans, Cydgysylltydd Cydnerth Lleol, Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd
Ysgrifenyddiaeth; a'r Uwcharolygydd Claire Parmenter, Cydgysylltydd Gwasanaethau Brys Argyfyngau Sifil Cymru, Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys.

3.2 Holodd yr Aelodau'r tystion.

## 4. Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Tystiolaeth gan y sector gwirfoddol

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Rhodri Jones, Cynghorydd Gweithrediadau, St John Cymru , a James Shaughnessy, Cyfarwyddwyr Gweithrediadau, St John Cymru.

4.2 Holodd y Pwyllgor y tystion.

## 5. Papurau i'w nodi

5.1 Nododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod diwethaf.

## 6. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

## 7. Trafod y dystiolaeth ar Argyfyngau Sifil yng Nghymru

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd iddo ar argyfyngau sifil yng Nghymru a rhoddodd gyfarwyddyd i'r Clerc baratoi adroddiad drafft ar sail y drafodaeth.

7.2 Trafododd y Pwyllgor ei raglen waith a'i amserlen hefyd a chytunodd i ysgrifennu at y Llywydd ynghylch ei amserlen.

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.